Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon gyda ffurflen gofrestru PSV350 neu ffurflen ganslo a newid PSV355 ym mhob achos lle bo'r cyfnod rhybudd yn llai na 56 diwrnod.

Peidiwch â'i hanfon i'r Swyddfa Ardal Drafnidiaeth ar ei phen ei hun.

At ddefnydd swyddogol yn unig

Ffurflen Atodol

Ticiwch y blychau **mewn PRIF LYTHRENNAU** **Rhif Ffôn Cenedlaethol 0870 60 60 440**

Gofynnaf am ganiatâd y Comisiynydd Traffig ar gyfer:

Dechrau Newid Canslo

gwasanaeth bws lleol â llai na 56 diwrnod o rybudd.

Hoffwn newid yr amserlen ar gyfer y cyfan neu ran o'r wythnos sy'n cynnwys 24 a 25 Rhagfyr, dydd Gwener y Groglith neu unrhyw ŵyl banc.

Rhaid ichi roi rhybudd o 21 diwrnod o leiaf o'r dyddiad y derbynnir y cais.

Bydd y gwasanaeth newydd/newid yn cymryd lle gwasanaeth tebyg iawn yr wyf i neu weithredwr arall wedi rhoi'r gorau i'w weithredu neu yn bwriadu rhoi'r gorau i'w weithredu.

Rhowch enw gweithredwr y gwasanaeth sydd wedi dod i ben.

Mae'r gwasanaeth sydd i'w newid neu ei ganslo naill ai heb fod ar gael i'r cyhoedd neu heb fod yn cael ei ddefnyddio ganddynt fel arfer (e.e. gwasanaethau gwaith neu ysgolion).

Mae'r heddlu, neu awdurdod trafnidiaeth wedi gofyn i mi newid/canslo'r gwasanaeth hwn am resymau yn ymwneud â diogelwch ar y ffordd, neu oherwydd mater yn ymwneud â rheoleiddio traffig ffordd.

Amgaewch dystiolaeth (e.e. copi o lythyr gan yr awdurdod trafnidiaeth neu'r heddlu).

Bydd y gwasanaeth newydd/newid yn berthnasol am gyfnod heb fod yn hwy na 21 diwrnod a bydd yn darparu ar gyfer gofynion ychwanegol achlysur neu ddigwyddiad arbennig.

Nodwch os gwelwch yn dda beth yw'r digwyddiad neu'r achlysur.

Bydd amserlen y gwasanaeth yn cael ei newid:
ddim mwy na 10 munud yn gynharach neu'n hwyrach nag a gofrestrwyd; neu
er mwyn i'r gwasanaeth gyfateb â gwasanaeth cysylltu rheilffordd, fferi neu awyrennau sydd wedi ei addasu.

Nodwch pa wasanaeth cysylltu sy'n berthnasol os gwelwch yn dda.

Bydd y newid neu'r ataliad yn para am gyfnod o 14 diwrnod neu lai sy'n wyliau cyhoeddus lleol neu'n wyliau sy'n cael eu cadw gan lawer yn yr ardal.	*Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.*
Mae angen cofrestru neu amrywio'r gwasanaeth neu ran o'r gwasanaeth er mwyn bodloni gofyniad brys ac eithriadol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr.	*Rhowch fanylion os gwelwch yn dda.*
Nid oes yr un o'r uchod yn berthnasol, ond dymunaf ddechrau/newid/canslo gwasanaeth am resymau na fyddem wedi gallu eu rhagweld 56 diwrnod ynghynt.	*Eglurwch pam os gwelwch yn dda.*

Os nad yw'r cofrestru, canslo neu newid y dymunwch ei wneud yn bodloni un o'r achosion a roddwyd uchod ni fydd y Comisiynydd Traffig yn caniatáu iddo ddod i rym hyd 56 diwrnod ar ôl iddo dderbyn y cais. Ceidw'r Comisiynydd Traffig yr hawl i wrthod caniatáu i wasanaeth ddechrau cyn i'r rhybudd o 56 diwrnod ddod i ben hyd yn oed os honnir bod un o'r achosion uchod yn cael ei fodloni.

Yr wyf yn datgan, hyd y gwn i, bod y wybodaeth a roddais yn wir ac yn gywir.

Arwyddwyd
Dyddiad
Enw (Prif Lythrennau)
Swydd yn y busnes

Dychwelwch y ffurflen hon yn awr gyda'r ffurflen gofrestru, newid neu ganslo sydd wedi ei llenwi ynghyd â'r dogfennau ategol a'r ffi (lle bo'n daladwy) i'r Swyddfa Drafnidiaeth Leol lle mae'ch gwasanaeth yn dechrau.

Rhaid ichi anfon ffi ac eithrio yn yr achosion isod:

- canslo; neu
- lle gwneir newidiadau i wasanaeth yn unig er mwyn cydymffurfio ag amodau rheoleiddio traffig neu orchymyn traffig ffordd.

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr. © Hawlfraint y Goron 1998.
Ailargraffwyd yn y DU Medi 2004 (PPU2489/AY) ar bapur a wnaed o wastraff defnyddwyr (100%). Cod y cynnyrch PSV 350A